

Sut mae gwneud cais?

Byddwn ni angen:

1. Ffurflen gais wedi'i chwblhau

Bydd y [Ffurflen Gais](#) hon yn gofyn ichi am wybodaeth bersonol, a gwybodaeth am eich gyrfa fel awdur hyd yma. Byddwn hefyd yn gofyn am eich amcanion ac uchelgais fel awdur proffesiynol a pham eich bod yn credu y byddai'r Rhaglen Datblygu Proffesiynol hon yn eich helpu ar y cam hwn gyrfa ysgrifennu.

2. Enghraifft o'ch ysgrifennu creadigol

Bydd y ffurflen gais yn gofyn i chi uwchlwytho enghraifft o'ch ysgrifennu creadigol gorau. Rydyn ni'n awgrymu rhwng 2,000 a 4,000 o eiriau o ryddiaith **neu** rhwng 4 ac 8 cerdd. Peidiwch ag anfon dim sy'n rhy hir.

Os yw eich gwaith ar y gweill yn nofel graffeg, rydym ni'n awgrymu eich bod yn anfon crynodeb o'r stori a sampl o dudalennau'r byrddau stori wedi'u cwblhau (gyda thestun a darluniau).

Fe allwch chi hefyd anfon y wybodaeth drwy gyflwyniad fideo, a hwnnw'n cynnwys yr holl wybodaeth rydyn ni'n gofyn amdani ar y ffurflen gais. Gallwch hefyd yrru enghraifft o'ch gwaith creadigol ar ffurf fideo os yw'n well gennych yrru perfformiad yn hytrach na darn ysgrifenedig. Anfonwch e-bost at post@llynyddiaethcymru.org i gael rhagor o wybodaeth.

Yr asesiad

Bydd eich cais yn cael ei asesu gan banel amrywiol o arbenigwyr a fydd yn asesu'r elfennau canlynol:

- Ansawdd a photensial creadigol yr ysgrifennu a gyflwynwyd gennych, ynghyd â gwreiddioldeb a ffresni'r syniadau a'r lleisiau yn eich cais a'ch gwaith creadigol
- Pa mor addas yw'r rhaglen i chi fel awdur ar yr adeg hon yn eich gyrfa

Mae ein cylch gwaith fel sefydliad cenedlaethol, dwyieithog yn ein hymrwymo i sicrhau bod amrywiaeth o awduron yn gallu achub ar ein cyfleoedd. Oherwydd hyn, efallai y bydd y panel yn ystyried cydbwysedd daearyddol ac iaith hefyd.

Cwestiynau Cyffredin

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn am y Rhaglen Datblygu Proffesiynol i Awduron o Liw, darllenwch ein Cwestiynau Cyffredin. Os na allwch chi weld yr ateb i'ch cwestiwn chi, cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth:

Cymhwysedd

Pwy sy'n gymwys i wneud cais am y cyfle hwn?

Unigolion o liw sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd a dros 18 oed, sydd am ddatblygu eu sgiliau mewn unrhyw ffurf lenyddol.

Oes angen profiad blaenorol arna' i i wneud cais?

Nag oes. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bobl sy'n newydd i'r byd ysgrifennu, neu efallai eich bod wedi cychwyn ar eich taith ac yn chwilio am gymorth i gyrraedd y lefel nesaf. Bydd y Panel Asesu yn chwilio am botensial a gwreiddioldeb.

Ydw i'n rhy brofiadol i wneud cais?

Yn bennaf, cyfle i awduron newydd, lled newydd, neu'r rheiny sydd â pheth profiad yw hwn.

Fodd bynnag, fel awdur o liw mwy profiadol, efallai y bydd rhwystrau sy'n eich atal rhag cyrraedd eich llawn botensial. Neu efallai eich bod am arbrofi â ffurf lenyddol neu iaith wahanol.

Bydd gan bawb ddiffiniad gwahanol o ystyr profiadol yng nghyd-destun gyrfa ysgrifennu. Felly byddwn ni'n croesawu ceisiadau gan awduron ym mhob cam yn eu gyrfaedd.

Ai cyfle i awduron ifanc yn unig yw hwn?

Mae hwn yn gyfle i awduron o bob oed (dros 18).

Ym mha iaith y caiff y rhaglen hon ei darparu?

Bydd yr holl ddigwyddiadau'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn dibynnu ar iaith y garfan o awduron.

Fodd bynnag, os ydych chi'n ysgrifennu'n greadigol mewn unrhyw iaith arall, byddwn ni'n ceisio helpu drwy eich paru â mentor addas sydd hefyd yn rhugl yn yr iaith honno. Sylwch fodd bynnag mai dim ond enghreifftiau o ysgrifennu creadigol sydd wedi'u cyflwyno yn Gymraeg neu Saesneg y gallwn ni eu hasesu fel rhan o'r broses gais. Fe allwn ni dderbyn gwaith sydd wedi'i gyfieithu a'i gyflwyno yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gall awduron nad ydyn nhw'n rhugl eu Gymraeg ond sy'n chwilio am gyfle i wella'u sgiliau ysgrifennu a'u sgiliau creadigol yn Gymraeg hefyd wneud cais, a byddan nhw'n cael eu cefnogi o dan y rhaglen hon. Wrth ddewis yr awduron llwyddiannus, bydd potensial creadigol rhagorol yn bwysicach na chywirdeb iaith.

Rydw i wedi cael Ysgoloriaeth neu wedi bod yn rhan Gynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru o'r blaen. Oes modd imi wneud cais?

Oes. Mae hon yn rhaglen newydd sbon, ac rydyn ni am iddi fod yn agored i gynifer o awduron cymwys â phosibl.

Pam eich bod chi'n blaenoriaethu ceisiadau gan awduron o liw?

Mae llawer o gyfleoedd a gweithgareddau Llenyddiaeth Cymru yn agored i bawb. Fodd bynnag, rydyn ni'n credu bod gwir angen mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a'r tangynrychiolaeth yn niwylliant llenyddol Cymru. Ein nod yw canfod a mynd i'r afael â'r rhwystrau sydd ar hyn o bryd yn atal ein cleientiaid, ein cynulleidfaoedd a'n cyfranogwyr rhag cael eu cynnwys. Drwy ganolbwyntio ar nodwedd benodol sy'n cael ei tangynrychioli, gallwn geisio canolbwyntio ar y rhwystrau penodol.

Mae'n hanfodol ceisio sicrhau gwell cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn i'r sector llenyddiaeth ffynnu a bod yn ystyrion i bawb. Mae cydraddoldeb yn golygu agor drysau a oedd gynt ar gau. Mae'r gred hon wedi'i hadlewyrchu yn ein cenhadaeth, ac mae'n ganolog i'n rhaglen o weithgareddau.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch Gynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Llenyddiaeth Cymru.

Pa *genres* llenyddol sy'n gymwys?

Rydyn ni'n croesawu awduron sy'n gweithio mewn amrywiaeth o *genres* gan gynnwys barddoniaeth, rhyddiaith (gan gynnwys nofelau a straeon byrion), ffeithiol greadigol, llenyddiaeth plant ac oedolion ifanc, nofelau graffeg, perfformio barddoniaeth, rap, ysgrifennu i'r sgrîn a sgrïptio.

Rydyn ni hefyd yn croesawu'r rheini sydd â diddordeb mewn gwneud gwaith cyfranogi llenyddol gyda chymunedau a grwpiau.

Mae croeso hefyd ichi gyflwyno gwaith sy'n cyfuno *genres*, ac nad oes modd ei roi'n daclus mewn un categori.

Y Broses Asesu

Pwy yw'r Panel Asesu?

Ar y Panel Asesu bydd amrywiaeth o unigolion sydd ag arbenigedd mewn llenyddiaeth, ysgrifennu creadigol, y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a'r tu hwnt, a/neu brosesau datblygu proffesiynol i awduron. Mae'r panel yn cynnwys unigolion o gefndiroedd ieithyddol ac ethnig amrywiol.

Mae mwy o wybodaeth am y Panel Asesu ar ein gwefan.

Sut fyddwch chi'n asesu fy nghais?

Bydd y Panel Asesu yn asesu pob cais ar wahân ac yn rhoi marc i bob ymgeisydd o dan feini prawf penodol, gan edrych ar ansawdd a photensial y darn o ysgrifennu creadigol a gyflwynwyd gennych, ynghyd â pha mor addas yw'r rhaglen hon i'ch anghenion chi. Gall y panel hefyd ystyried cydbwysedd daearyddol ac ieithyddol wrth ddewis yr ymgeiswyr.

Os bydda' i'n aflwyddiannus, a fydda' i'n cael adborth?

Gan ein bod ni'n disgwyl llawer o geisiadau, efallai na fydd modd inni roi adborth manwl i bawb. Fodd bynnag, os bydd hynny'n bosibl, byddwn ni'n rhoi llinell neu ddwy o adborth personol, ac yn eich cynghori am gyfleoedd eraill a allai fod ar gael gan Llenyddiaeth Cymru a'n partneriaid.

Pryd fydda' i'n clywed a yw fy nghais i fod yn rhan o'r Rhaglen Datblygu Proffesiynol wedi bod yn llwyddiannus?

Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael gwybod am benderfyniad y Panel Asesu erbyn 8 Ionawr 2021, a bydd enwau'r awduron sydd wedi'u dewis yn cael eu cyhoeddi yr un mis.

Y Rhaglen

Pryd fydd y rhaglen yn cael ei chynnal? Oes gennych chi fwy o fanylion a dyddiadau ar gyfer y digwyddiadau?

Bydd y rhaglen yn cael ei chynnal, yn fras, dros 12 mis rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2021.

Bydd y rhaglen yn cael ei chreu ar y cyd â'r awduron a gaiff eu dewis, fel bod ei chynnwys mor ddefnyddiol â phosibl i bob awdur, ac yn cyd-fynd â'u diddordebau a'u nod.

Efallai y bydd rhai digwyddiadau'n cyd-daro â gwyliau yn y calendr llenyddol, e.e. Gŵyl y Gelli neu Ffair Lyfrau Llundain. Bydd digwyddiadau eraill yn cael eu cynnal ar nosweithiau yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau. Byddwn yn ceisio trefnu'r digwyddiadau gan sicrhau y gall y rhan fwyaf o'r awduron ymuno. Ond ni fydd hynny'n bosibl bob amser – ac felly byddwn ni'n ceisio recordio digwyddiadau'n ddigidol er mwyn ichi eu gwyllo eto. Byddwn yn ceisio bod yn hyblyg wrth ymateb i amserlenni pobl.

Chi sydd i drefnu eich sesiynau un-i-un gyda'ch mentor personol, gan gyfarfod wyneb yn wyneb (os yn ddiogel) neu'n rhithiol.

Ar ôl i'r rhaglen 12 mis ddod i ben, byddwn yn dal i gynnig cefnogaeth ichi drwy gadw mewn cysylltiad, cynnig cyngor, a gwahodd yr awduron i gyfleoedd hyfforddiant a rhwydweithio pellach. Buddsoddiad hirdymor yw hwn i'w datblygiad.

Faint o fy amser fydd angen imi ei dreulio ar y Rhaglen, os bydda' i'n cael fy nerbyn i fod yn rhan ohoni?

Rydyn ni'n amcangyfrif y byddwn yn trefnu gweithgareddau ac yn gosod tasgau a fydd yn gofyn am rhwng 10 ac 13 diwrnod llawn o'ch amser yn ystod y flwyddyn, ond bydd nifer o'r digwyddiadau hyn yn cael eu trefnu i osgoi cyd-daro ag oriau gwaith.

Chi sydd i benderfynu faint o oriau ychwanegol y bydd angen ichi eu neilltuo wedyn tuag at eich prosiectau ysgrifennu eich hun yn ystod y flwyddyn.

A fydd angen imi deithio i ddigwyddiadau?

Mae hyn yn dibynnu ar ffactorau gan gynnwys sefyllfa COVID-19.

Byddwn yn trafod parodrwydd y garfan i gyfarfod pobl wyneb yn wyneb, ac a ydyn nhw ar gael i wneud hynny. Mae'n bosibl y byddwn ni'n trefnu rhai diwrnodau hyfforddi mewn lleoliad yng Nghymru gyda llety dros nos, a/neu gwrs neu encil yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. Disgwylwn y bydd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau'n cael eu cynnal yn rhithiol, a gellir addasu'r holl raglen i'w darparu'n ddigidol os bydd angen, yn dibynnu ar y canllawiau COVID-19 diweddaraf.

Byddwch chi hefyd yn cael cyllideb docynnau i'w gwario ar docynnau i wyliau a digwyddiadau o'ch dewis chi.

Mae gen i anabledd neu salwch a allai ei gwneud hi'n anodd imi gymryd rhan. A allwch chi helpu?

Gallwn. Cysylltwch â ni i drafod unrhyw bryderon neu ofynion ymlaen llaw. Mae cronfa fynediad wedi'i chreu i alluogi awduron sydd ag anableddau neu salwch, a gofynion ychwanegol o ran mynediad, i gymryd rhan lawn mewn digwyddiadau.

A fydd angen imi gyflwyno darn o waith gorffenedig ar ddiwedd y 12 mis?

Ddim o anghenraid. Rhaglen fydd hon i roi'r adnoddau y bydd eu hangen arnoch i ddatblygu eich crefft yn y tymor hir, ac i ddatblygu'n broffesiynol fel awdur. Ar ddechrau'r rhaglen, byddwn ni'n gweithio gyda chi i osod amcanion a nodau y bydd modd ichi eu cyflawni, gan eich helpu i lwyddo yn hynny o beth.

Byddwn am roi llwyfan i'ch cyflawniadau rywsut – boed mewn digwyddiad i ddathlu, digwyddiad ar-lein i roi cyhoeddusrwydd, neu ddigwyddiad o fath arall.

Ymholiadau Cyffredinol

Dydw i ddim yn gymwys i ymgeisio, ond mae diddordeb gen i mewn datblygu fy ngyrfa fel awdur. Sut allwch chi helpu?

Mae gan Llenyddiaeth Cymru dair colofn gweithgaredd, a Datblygu Awduron yw un o'r rheini. Mae gennym nifer o brosiectau i helpu awduron i ddatblygu eu hysgrifennu a'u gyrfaedd fel awduron. Ewch i'n [gwefan](#) i gael mwy o wybodaeth am y cyfleoedd sydd gennym i'w gynnig, neu i gael rhagor o wybodaeth [cysylltwch â ni](#) i drafod eich anghenion unigol.

Bydd cyfleoedd ariannu newydd i awduron yn parhau i fod ar gael yn y dyfodol, er enghraifft drwy rowndiau ychwanegol o [Gomisiynau i Awduron](#).

Sylwch y gall rhai o'n prosiectau arferol fod wedi'u gohirio am y tro oherwydd pandemig COVID-19.

A yw Ysgoloriaethau i Awduron a Chynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru ar gael eleni?

Ni fyddwn yn cynnal proses ymgeisio ar gyfer ein cynlluniau Ysgoloriaethau a Mentora eleni.

Roeddem yn falch o gyfrannu 50% o'r cyllid loteri a glustnodwyd inni yn 2020-2021 i Gronfa Gwytnwch Cyngor Celfyddydau Cymru mewn ymateb i argyfwng COVID-19. Ni oedd un o'r sefydliadau niferus i gyfrannu at y pecyn cymorth ehangach hwn, sy'n cynnwys y Gronfa Ymateb Brys i Unigolion. Cronfa yw hon sy'n ceisio helpu unigolion creadigol llawrydd – gan gynnwys awduron – sy'n wynebu'r caledi ariannol mwyaf oherwydd pandemig COVID-19. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [fan hyn](#).

Eleni, felly, dyma gyfle i Llenyddiaeth Cymru ddiffinio ein cefnogaeth a'n cyfleoedd datblygu i awduron. Gall rhoi'r gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn gyfrannu at gyfoeth ac amrywiaeth ein diwylliant llenyddol cyfoes. Dyna pam ein bod ni'n lansio'r Rhaglen Datblygu Proffesiynol i Awduron, sy'n disodli'r cynllun Ysgoloriaethau a Mentora am eleni.

Ein gobaith yw ailgyflwyno'r cynlluniau Ysgoloriaethau a Mentora yn 2021, ynghyd â pharhau i ddatblygu a darparu Cynllun Datblygu Proffesiynol i Awduron ar gyfer awduron sydd wedi'u tangynrychioli hefyd. Fodd bynnag, yn y cyfnod hwn, a sefyllfa ariannu'r celfyddydau mor ansicr, nid oes modd inni roi diweddariad pendant am ddyfodol ein cynlluniau ariannu.